**CITY OF CARDIFF COUNCIL**
CYNGOR DINAS CAERDYDD

MINUTES

CABINET MEETING: DYDD MERCHER, 27 GORFFENNAF 2016

| | |
|---|---|
| Cabinet Members Present: | Councillor Phil Bale (Chair)<br>Councillor Sue Lent<br>Councillor Peter Bradbury<br>Councillor Dan De'Ath<br>Councillor Bob Derbyshire<br>Councillor Graham Hinchey<br>Councillor Susan Elsmore<br>Councillor Sarah Merry<br>Councillor Ramesh Patel |
| Observers: | Councillor Dianne Rees<br>Councillor Neil McEvoy<br>Councillor Judith Woodman |
| Officers: | Paul Orders, Chief Executive<br>Christine Salter, Section 151 Officer<br>Marie Rosenthal, Monitoring Officer<br>Joanne Watkins, Cabinet Office |
| Apologies: | |

## 20 DERBYN ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC GYDA'R TEITL "CAMFANTEISIO'N RHYWIOL AR BLANT"

Derbyniodd y Cabinet adroddiad y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc gyda'r teitl "Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant". Roedd 34 o ganfyddiadau allweddol a 13 o argymhellion yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**: derbyn yr adroddiad ac ymateb iddo erbyn Hydref 2016.

## 21 YSTÂD BUDDSODDI MEWN EIDDO

***Datganodd yr Arweinydd ddiddordeb personol ond heb fod yn niweidiol yn y mater hwn gan fod Plaid Lafur ei Etholaeth yn denant i ddau eiddo o fewn Ystâd Fuddsoddi y Cyngor.***

Ystyriodd y Cabinet adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed ynghylch ystâd buddsoddi mewn eiddo y Cyngor.

Portffolio o eiddo anweithredol y Cyngor yw'r ystâd buddsoddi mewn eiddo, er dibenion cynhyrchu incwm.

**PENDERFYNWYD**:

1. nodi cynnwys yr adroddiad a'r safiad presennol o ran yr Ystâd Buddsoddi mewn Eiddo.

2. y bydd adroddiad yn trafod y Cynllun Ystâd Buddsoddi mewn Eiddo Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cabinet ym mis Tachwedd, yn gosod strategaeth a thargedau ar gyfer y 3 blynedd nesaf.

## 22 ARDAL GWELLA BUSNES CAERDYDD

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu'r datblygiadau mewn perthynas â chynigion Ardal Gwella Busnes Caerdydd (AGB). Roedd yr adroddiad yn manylu ar gytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer tîm Rheoli Canol y Ddinas, blaendal i gefnogi gweithgareddau cychwynnol yr AGB ac enwebiadau y cytunwyd arnynt i'r Bwrdd AGB.

**PENDERFYNWYD:**

a) y dylid dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, ar y cyd ag Arweinydd y Cyngor, y Prif Weithredwr, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gwblhau Cytundeb Lefel Gwasanaeth mewn perthynas â Rheoli Canol y Ddinas ar sail y cytundeb drafft yn Atodiad A.

b) y dylid dirprwyo awdurdod i Swyddog Adran 151 ar y cyd ag Arweinydd y Cyngor, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd a'r Swyddog Monitro i drafod blaendal i'r cwmni Ardal Gwella Busnes ar y sail y caiff unrhyw flaendal ei ad-dalu trwy gasglu ardoll a'i dalu yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol ac ar sail yr egwyddorion a sefydlwyd yn yr adroddiad hwn.

c) y bydd Arweinydd y Cyngor, ynghyd â Chyfarwyddwr Datblygu Economaidd, yn cael eu henwebu fel Aelodau Bwrdd AGC.

## 23 MODEL CYFLAWNI AMGEN – CANOLFANNAU HAMDDEN

*Gwnaeth yr Arweinydd, fel Cadeirydd, ar ôl derbyn cyngor gan Aelodau Cabinet dros Ddatblygu Cymunedol, Cwmnïau Cydweithredol a Menter Gymdeithasol a Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad benderfynu y dylid trafod yr eitem hon yn y cyfarfod fel mater brys oherwydd amgylchiadau eithriadol. Er bod yr eitem hon wedi'i chyhoeddi ar yr Agenda, cwblhawyd yr adroddiad ddydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2016 ac mae angen penderfynu arno yn y cyfarfod hwn ar frys. Mae ar frys am y rhesymau canlynol: -*

- *Mae'r adroddiad hwn yn deillio o'r penderfyniad cyllidebol ar ymchwilio i Fodel Darparu Amgen er mwyn sicrhau arbedion sylweddol o ran cynnal Gwasanaethau Hamdden y Cyngor tra bod yr holl gyfleusterau'n parhau ar agor a darparu gwasanaeth cyffelyb i'r hyn sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd.*

- *Fel rhan o'r broses benderfynu, roedd yr argymhellion yn yr adroddiad yn destun Craffu cyn gwneud penderfyniad. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Economi a Diwylliant ddydd Iau, 21 Gorffennaf 2016. Cyflwynwyd llythyrau'r Pwyllgor i'r Aelodau Cabinet dros Ddatblygu Cymunedol, Cwmnïau Cydweithredol a Mentrau Cymdeithasol a Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad y diwrnod wedyn, ac er mwyn i'r sylwadau yn y llythyrau hynny ffurfio rhan o'r adroddiad ynghyd ag adborth arall a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad gydag Undebau Llafur, cwblhawyd yr adroddiad ddydd Mawrth, 26 Gorffennaf.*

- *Adroddwyd y mater hwn i'r Cabinet o'r blaen (gyda'r Cabinet yn awdurdodi dechrau ar y broses gaffael (penderfyniad Cabinet 15 Mai 2014). Ymhellach at hyn, o ystyried pwysigrwydd posib y trefniant cytundebol arfaethedig, gan gynnwys yr arbedion ariannol sylweddol ddylai gael eu cyflawni) felly, caiff ei ystyried yn briodol bod y mater hwn yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Cabinet 27 Gorffennaf 2016.*

Ystyriodd y Cabinet adroddiad oedd yn manylu ar gynnig i benodi cynigydd a ffefrir ar gyfer gweithredu a rheoli canolfannau hamdden y Cyngor. Cynigwyd y dylid penodi Greenwich Leisure Limited (GLL) GLL yn gynigydd a ffefrir wrth sicrhau ymgynghoriad cyson ag undebau llafur a staff a effeithir.

**PENDERFYNWYD:**

1. y dylid cymeradwy penodiad Greenwich Leisure Limited (GLL) yn Gynigydd a Ffefrir er mwyn gweithredu a rheoli'r Cyfleusterau Hamdden y sonnir amdanynt yn yr adroddiad, tra'n sicrhau mai'r Cyngor sy'n berchen ar y cyfleusterau;

2. y dylid dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cymunedol, Cwmnïau Cydweithredol a Mentrau Cymdeithasol, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, i gloi y gwaith caffael ar y broses o gwblhau'r contract (gan gynnwys cwblhau'r contract Gweithredu Hamdden arfaethedig gyda Greenwich Leisure Limited (GLL) mewn perthynas â Chanolfan Hamdden y Dwyrain, Canolfan Hamdden Y Tyllgoed, Canolfan Hamdden Llanisien, Canolfan Maendy, Canolfan Hamdden Pentwyn, Canolfan STAR (Sblot), Canolfan Hamdden Y Gorllewin a Llyfrgell a Chanolfan Gymunedol Pen-y-lan, ac i ymdrin ag unrhyw ddogfennaeth a materion ategol);

3. y dylid nodi'r penderfyniad i ddileu Canolfan Trem-y-Môr o broses gaffael ehangach y Cyngor oherwydd ei pherfformiad ariannol gwell a mynediad strategol i lannau'r dŵr ym Mae Caerdydd sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o uwchgynllun newydd ar gyfer Bae Caerdydd (gweler paragraff 42); a

4. bydd trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ag Undebau Llafur ac ymgysylltu â chyflogeion yn digwydd yn unol â gofynion deddfwriaeth TUPE, hyd at a thu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo.

## 24 ARDRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL – DILEU DYLEDION

***Ni fydd Atodiadau A a B yr adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi yn rhinwedd Paragraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972***

Derbyniodd y Cabinet adroddiad oedd yn ceisio awdurdodiad i ddileu ardrethi annomestig oedd yn cael eu hystyried yn amhosib.

**PENDERFYNWYD**: y dylid dileu dyledion hyd at £1,849,173.37 fel y'i nodwyd yn Atodiad A o'r adroddiad.

## 25 COFRESTR RISG GORFFORAETHOL (SEFYLLFA AR DDIWEDD Y FLWYDDYN 2015/16)

Ystyriodd y Cabinet y Gofrestr Risg Gorfforaethol oedd yn nodi'r peryglon strategol yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu, ynghyd â manylion am y systemau effeithiol a chadarn sydd ar waith i reoli'r peryglon hynny.

PENDERFYNWYD: **y dylid nodi cynnwys y Gofrestr Risg Gorfforaethol.**

## 26 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (FFRAMWAITH ADRODD BLYNYDDOL Y CYNGOR)

Derbyniodd y Cabinet Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Nodwyd bod blaenoriaethau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad blynyddol wedi'u hadlewyrchu yng Nghynllun Adran Gwasanaethau Cymdeithasol 2016-17.

**PENDERFYNWYD**: y dylid derbyn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2015-16 a'i anfon ymlaen i'r Cyngor ei ystyried.

## 27 YMATEB I ADRODDIAD PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL AC OEDOLION O'R TEITL "SUT I LEIHAU TROSEDD AC ANHREFN YN ECONOMI'R NOS MEWN CYFNOD O LYMDER"

Derbyniodd y Cyngor yr ymateb i adroddiad a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion gyda'r teitl "Sut i Leihau Trosedd ac Anrhefn yn Economi'r Nos Mewn Cyfnod o Lymder". Roedd yr adroddiad yn cynnwys 15 o argymhellion; bu i'r rhain oll gael eu derbyn neu eu derbyn yn rhannol.

PENDERFYNWYD: y dylid cytuno ar yr ymateb i adroddiad a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion gyda'r teitl "Sut i Leihau Trosedd ac Anrhefn yn Economi'r Nos Mewn Cyfnod o Lymder".